# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## SETLIAD REFENIW LLYWODRAETH LEOL 2003-04

### Diben

1. Bwriad y papur hwn yw gofyn barn y Pwyllgor am Setliad Refeniw dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2003-04. Cyhoeddwyd y setliad ar 28 Tachwedd 2002, ac amgaeir Adroddiad Ariannol dros dro Llywodraeth Leol ar gyfer 2003-04 yn Atodiad 1.

### Amserlen

2. Mae'r cyfnod ymgynghori statudol rhwng 28 Tachwedd 2002 a 9 Ionawr 2003. Gwahoddir y Pwyllgor i fynegi'i farn cyn 9 Ionawr 2003.

### Cydymffurfio

3. Cyn gwneud penderfyniadau am gyfanswm y Grant Cynnal Refeniw, a faint o Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig i'w dosbarthu rhwng yr awdurdodau a'r cyrff penodedig sy'n eu derbyn, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â chynghorau ac awdurdodau'r heddlu yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Gwneir adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol o dan adran 78(A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Ar 1 Gorffennaf 1999 cafodd y pwerau hyn eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, Rhif 672. Bydd yr

adroddiad yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04 os bydd y Cynulliad yn ei gymeradwyo'n briodol. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Y Cefndir**

4. Mae Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol yn nodi faint o Grant Cynnal Refeniw y mae'r Cynulliad yn bwriadu ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i awdurdodau'r heddlu yn 2003-04. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu sut y caiff Ardrethi Annomestig eu dosbarthu i gynghorau ac i awdurdodau'r heddlu, ac mae'n nodi swm y Grant Cynnal Refeniw y mae'r Cynulliad yn bwriadu'i dalu i gyrff penodedig sy'n darparu gwasanaethau i lywodraeth leol.

5. Dyma brif bwyntiau'r cyhoeddiad:

   - Mae'r setliad yn cynyddu'r cymorth cyffredinol y mae'r Cynulliad yn ei roi i awdurdodau lleol i 6.2%.
   - Bydd y Cynulliad yn darparu cymorth ariannol cyffredinol gwerth £3,082 miliwn, cyn cynnwys grantiau penodedig, i'r awdurdodau lleol i'w wario yn 2002-03, sef £2,422 miliwn o arian cynnal refeniw a £660 miliwn sydd wedi'u dynodi dros dro fel swm yr ardrethi annomestig sydd i'w ddosbarthu.

6\. Gwnaed cyhoeddiad ar wahân am ddosbarthu'r grant amddifadedd gwerth £20 miliwn a'r Grant Cymell Perfformiad gwerth £30 miliwn. Mae'r grantiau hyn yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol heb ei glustnodi i'r awdurdodau.

6\. Bydd manylion y setliad i'r heddlu ar gael ar ôl i'r Swyddfa Gartref gyhoeddi manylion y Grant i'r Heddlu a'r Fformwla ar gyfer Asesiadau o Wariant Safonol yr heddlu.

7\. Yn ogystal â chyhoeddi'r setliad Dros Dro, ceir rhestr o grantiau penodedig sy'n dangos y symiau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol lle bo hynny'n wybyddus, a'r dyraniadau unigol neu'r dyddiadau pan fydd y dyraniadau unigol i awdurdodau'n cael eu cyhoeddi. Ceir y rhestr hon yn Atodiad 2.

**Edwina Hart**

**Rhagfyr 2002**